

Polisi Casgliadau Gwasanaeth y Llyfrgell

Perchennog y Polisi:	<i>Rheolwr Casgliadau a Datblygu Digidol</i>
Corff Cymeradwyo:	<i>Grŵp Tasg y Llyfrgell ac Archifau</i>
Dyddiad Cymeradwyo Fersiwn 4:	<i>22/03/2018 [cofnod 280.]</i>
Dyddiad Cymeradwyo Fersiwn 3:	<i>06/03/2017 [cofnod 255.]</i>
Dyddiad Cymeradwyo Fersiwn 2:	<i>07/06/2016 [cofnod 236. [a]]</i>
Dyddiad Cymeradwyo Fersiwn 1:	<i>08/12/2015 [cofnod 208. [a] i]</i>
Dyddiad y Daw i Rym:	<i>22/03/2018</i>
Dyddiad yr Aseiad Effaith Cydraddoldeb:	<i>06/03/2018</i>
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	<i>Mawrth 2019</i>

1. Rhagarweiniad

- 1.1. Mae Llyfrgell Prifysgol Bangor yn cefnogi dysgu, addysgu ac ymchwil y Brifysgol drwy gaffael, rheoli a chyflwyno casgliad o adnoddau sy'n ddeinamig ac yn berthnasol ac sy'n datblygu.
- 1.2. Mae'r Polisi Casgliadau hwn yn gosod fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch y broses o ddewis a rheoli casgliadau ffisegol ac electronig y Llyfrgell. Y cyd-destun iddo yw gweledigaeth a chynllun strategol y Brifysgol.
- 1.3. Er mwyn ymdrin ag anghenion disgyblaethau pwnc-benodol, datblygwyd polisiau ar lefel yr Ysgolion neu'r Colegau. Dyma lle gellir diffinio eithriadau i'r strategaeth hon ac maent i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon. Sylwch fod yna hefyd bolisiau neilltuol ar gyfer yr [Archifau a'r Casgliadau Arbennig](#).
- 1.4. Mi wnaiff y polisi esblygu wrth i'r galw am wasanaethau'r Llyfrgell newid a bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

2. Aims Amcanion y Polisi Casgliadau

- 2.1. Sicrhau bod adnoddau'r Llyfrgell yn cefnogi amcanion a mentrau strategol y Brifysgol o ran addysgu, dysgu ac ymchwil, gan gynnwys cyfleoedd busnes a'r agenda ehangu cyfranogiad.
- 2.2. Sicrhau bod y casgliadau'n hwylus i bawb eu cyrchu, rhoi mynediad teg ar y campws ac oddi arno (lle mae trwyddedau'n caniatáu hynny) a chefnogi profiad y myfyrwyr drwy ddarparu adnoddau perthnasol 24/7.
- 2.3. Sicrhau bod dull rheoli'r casgliadau'n dryloyw a bod adnoddau'n cael eu caffael yn y ffordd fwyaf cost-effeithlon, gan ddefnyddio cytundebau consortia lle maent ar gael.

2.4. Sicrhau bod y casgliadau'n adlewyrchu anghenion a diwylliant cymuned amrywiol y Brifysgol a chefnogi Cynllun Iaith Gymraeg y Brifysgol a diwylliant a threftadaeth Cymru yn y casgliadau.

3. Yr hyn y mae'r Llyfrgell yn ei Gasglu

3.1. Mae'r Llyfrgell yn prynu adnoddau sydd eu hangen ar gyfer dysgu, addysgu ac ymchwil yn amodol ar gyfyngiadau'r gyllideb, yr hyn sydd ar gael, addasrwydd technegol a thelerau ac amodau cyfreithiol yn achos y deunydd electronig.

3.2. Nod y Gwasanaethau Llyfrgell ac Archifau yw rhoi mynediad i'r deunydd sydd ar y rhestrau darllen. Mae polisi neilltuol i'r [Rhestrau Darllen](#).

3.3. Caiff deunydd electronig ei brynu yn hytrach na'i argraffu oni ofynnir yn benodol am fersiwn print neu os nad oes fersiwn electronig ar gael, sy'n briodol neu'n gost-effeithiol.

3.4. Nid yw'r Llyfrgell yn casglu:

3.4.1. Meddalwedd.

3.4.2. Hen fformatau technegol sydd ddim ar gael mwyach.

3.4.3. Eitemau sydd y tu hwnt i'r meysydd pwnc bras sy'n cael eu hymchwilio a'u dysgu yn y Brifysgol.

3.5. Er mwyn dewis a dethol yn effeithiol mae angen partneriaeth rhwng pob Ysgol a Choleg a'r Llyfrgell. Er mwyn hwyluso hyn, mae Llyfrgellydd Cymorth Academaidd yn cefnogi pob coleg sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Llyfrgell yn ymwybodol o anghenion gwybodaeth y Coleg ac mae staff y Coleg yn ymwybodol o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt yn y Llyfrgell.

4. Y Gadwrfa Ymchwil

4.1. Bydd y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau yn cadw'r canlynol yn y Gadwrfa Ymchwil (ystorfa allanol):

- Copïau unigol o lyfr yr ystyrir bod iddo werth hirdymor a bod yr wybodaeth yn dal yn berthnasol.
- Copïau print o gyfrolau cyfnodolion lle mae achos cryf dros eu cadw ac nid ydynt ar gael ar ffurf electronig na thrwy fenthyciad rhwng Llyfrgelloedd.
- Gwneir pob ymdrech i ymdrin â'r casgliadau unigryw a nodedig sy'n dal i gael eu cadw yn y Gadwrfa Ymchwil gyda'r bwriad o symud deunydd priodol i Ganolfan Stephen Colclough ar Hanes a Diwylliant y Llyfr.

4.2. Sylwer, mae eithriadau posib i'r egwyddorion hyn ym mholisiau'r Ysgolion.

5. Traethodau Ymchwil

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau yn cadw traethodau ymchwil PhD ac MPhil. Mae'r Llyfrgell hefyd yn cadw traethodau hir Meistr sydd o ddiddordeb Cymreig neu sydd wedi ennill rhagoriaeth. Dim ond yn y Llyfrgell y gellir darllen traethodau ymchwil printiedig. Cyfrifoldeb yr ysgolion yw sicrhau y caiff copïau o'r traethodau ymchwil eu rhoi i'r Llyfrgell. Caiff copïau electronig o draethodau ymchwil PhD eu cadw yng Nghadwrfa'r Brifysgol.

6. Benthycia Rhwng Llyfrgelloedd

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau yn cynnig gwasanaeth cyflenwi dogfennau canolog a gwasanaeth rhyng-fenthycia i ddefnyddwyr fedru cael gafael ar eitemau sydd ddim ar gael yn y casgliadau. Gellir gweld y canllawiau ar dudalennau gwe'r Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau sy'n rhoi manylion am nifer y benthyciadau rhwng llyfrgelloedd y caiff y staff, yr israddedigion, yr ôl-raddedigion a'r myfyrwyr eraill ofyn amdanynt.

7. Rhoddion

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau yn croesawu rhoddion o ddeunydd sy'n cefnogi'r addysgu, y dysgu a'r ymchwil sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond mae'n cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod rhoddion. Mae yna bolisi neilltuol ar gyfer [Gyfraniadau ac Rhoddion](#).

8. Polisi Symud Deunydd

Caiff stoc print ei symud yn unol â Nodau uchod Polisi'r Casgliad bob blwyddyn. Bydd y Llyfrgellwyr Cymorth Academaidd yn ymgynghori â'r staff academaidd fel bo'n briodol.

9. Manylion Cyswllt

Os oes angen rhagor o gyngor arnoch chi am y polisi hwn, cysylltwch â'r canlynol:

Rheolwr Casgliadau a Datblygu Digidol
Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

Ffôn: 01248 388381
E-bost: llyfrgell@bangor.ac.uk

10. Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu pob blwyddyn gan ymgynghori â'r rhan-ddeiliaid, neu'n gynharach os bydd newid mewn amgylchiadau a all ei gwneud hi'n ofynnol cynnal adolygiad.

11. Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i ymgorffori ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn ei pholisïau, ei threfniadau a'i harferion. Cynhaliwyd aseiad effaith cydraddoldeb ar y polisi hwn yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb.

**POLISI CASGLIADAU'R GWASANAETH LLYFRGELL:
GOFYNION PENODOL YR YSGOLION**

COLEG Y CELFYDDYDAU A'R DYNIAETHAU

Adrannau	Eithriadau / Gofynion
<p>3. Yr hyn y mae'r Llyfrgell yn ei Gasglu</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Os oes modd adnabod eitemau fel rhai Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, cedwir un copi o unrhyw argraffiad o lyfr sydd wedi ei ddisodli - at ddibenion ymchwil hanesyddiaeth. (Gweler yr eithriad isod yn achos Ysgol yr Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau). ▪ Caniateir i fyfyrwyr cerddoriaeth fenthyca CDau cerddoriaeth o gyflwyno slip cymeradwyo benthyciad gan y cydlynedd modiwl. ▪ Caniateir i staff a myfyrwyr cerddoriaeth fenthyca deuddeg sgôr cerddoriaeth yn ogystal â'r cwota safonol o eitemau y cânt eu benthycu. ▪ RHAID ymgynghori â chynrychiolwyr Llyfrgell yr Ysgolion cyn cael gwared ar stoc.
<p>8. Polisi Symud Deunydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Bydd sgoriau cerddoriaeth a CDau yn aros ar y silffoedd agored, ac ni fyddant byth yn cael eu symud i'r Gadwrfa Ymchwil na'u gwaredu heb gytundeb yr Ysgol Gerddoriaeth. ▪ Mae'r Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau yn gofyn bod yr holl argraffiadau sydd wedi eu disodli'n cael eu tynnu'n ôl. ▪ Ysgol yr Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau - Oni bai eu bod yn cael eu defnyddio'n aml, caiff pob un o'r argraffiadau sydd wedi eu disodli eu tynnu'n ôl. Lle bo'n briodol, caiff copïau ychwanegol o argraffiadau diweddarach eu prynu i gymryd lle'r argraffiadau blaenorol sydd wedi eu disodli ond sy'n cael eu defnyddio'n aml. ▪ Mae angen i rifynnau o'r 30 mlynedd diwethaf o rai cyfnodolion neilltuol fod ar gael i'w darllen yn syth bin. Rhaid cytuno ar y teitlau penodol hyn mewn cysylltiad â'r Llyfrgellydd Cefnogaeth Academaidd a chynrychiolydd Llyfrgell yr Ysgol. Bydd y rhestr hon yn destun adolygiad. Mae hyn i sicrhau mynediad uniongyrchol at ddogfennau

	<p>gwreiddiol er mwyn i fyfyrwyr ddysgu a deall y broses hanesyddiaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Ni ddylid gwaredu unrhyw gyfnodolion print heb ymgynghori â'r Ysgol berthnasol a chytuno ar hynny. Dylai'r broses hon gynnwys ymgynghori ar draws y Coleg.
--	--

COLEG BUSNES, Y GYFRAITH, ADDYSG A GWYDDORAU CYMDEITHAS

Mae angen ymgynghori â'r Ysgolion yn rheolaidd ynghylch unrhyw eitemau sydd wedi eu nodi fel rhai i'w tynnu'n ôl.

Gofyniad penodol mewn perthynas ag **YSGOL Y GYFRAITH**:

Adrannau	Eithriadau / Gofynion
3. Yr hyn y mae'r Llyfrgell yn ei Gasglu	<p>Sylwer: Mae'n rhaid i Lyfrgell y Gyfraith academaidd gydymffurfio â'r safonau a bennir gan y Committee of the Society of Legal Scholars, 'A library for the modern law school: a statement of standards for university law library provision in the UK' (diwygiad 2009).</p>
8. Polisi Symud Deunydd	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Rhaid ymgynghori ag Ysgol y Gyfraith cyn symud/gwaredu neu ganslo stoc er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau uchod. ▪ Oni bai bod cais penodol, caiff pob argraffiad sydd wedi ei ddisodli ei dynnu'n ôl. ▪ Cyfnodolion: <ul style="list-style-type: none"> ○ Os nad yw'r teitl ar gael yn electronig, peidiwch â'i symud i'r Gadwrfa Ymchwil. ○ Rhaid hysbysu'r Ysgol am unrhyw benderfyniad i ganslo copi print o gyfnodolyn a chael copi electronig yn ei le. ○ Rhaid sicrhau mynediad parhaol i e-gyfnodolion.

COLEG Y GWYDDORAU FFISEGOL A CHYMHWYSOL

Nid oes gan yr Ysgolion Peirianeg Electronig, Cyfrifiadureg a Chemeg ddim gofynion arbennig sydd ddim yn y Polisi Casgliadau. Mae'r Ysgolion yn gofyn am ymgynghori rheolaidd ar unrhyw eitemau a nodir fel rhai i'w tynnu'n ôl.

COLEG Y GWYDDORAU NATURIOL

Nid oes gan Ysgolion y Coleg hwn ddim gofynion arbennig sydd ddim yn y Polisi Casgliadau. Mae'r Ysgolion yn gofyn am ymgyngori rheolaidd ar unrhyw eitemau a nodir fel rhai i'w tynnu'n ôl.

COLEG Y GWYDDORAU IECHYD AC YMDDYGIAD

Mae'r Ysgolion angen ymgyngoriad rheolaidd ar eitemau a nodir fel rhai i'w tynnu'n ôl.

Gofyniad penodol mewn perthynas ag **YSGOL GWYDDORAU GOFAL IECHYD:**

Adrannau	Eithriadau / Gofynion
3. Yr hyn y mae'r Llyfrgell yn ei Gasglu	Mae'n rhaid sicrhau adnoddau cyffelyb fel bod yr un llyfrau ar gael ar safleoedd Bangor a Wrecsam. Mae hyn er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at adnoddau i'r myfyrwyr, waeth ble mae eu lleoliadau ysbyty ac i gymryd i ystyriaeth ddalgylch mawr myfyrwyr y Gwyddorau Gofal Iechyd. Yr unig eithriad ar hyn o bryd yw Radiograffeg - dim ond ar safle Wrecsam y mae'r adnoddau ar gael ar gyfer y pwnc hwnnw.
8. Polisi Symud Deunydd	Gwyddorau Gofal Iechyd: Oni bai fod cais penodol, dim ond y ddau argraffiad diweddaraf a gedwir ac fe gaiff pob argraffiad arall ei dynnu'n ôl. Eithriadau: Llyfrau ar ymarfer cyfreithiol, ffarmacoleg a sgiliau clinigol - os yw'r argraffiadau blaenorol o'r gwerslyfrau hyn yn hŷn na 5 mlynedd, yna dylid cadw'r argraffiad diweddaraf yn unig.